



Adroddiad Arolygu ar gyfer

7 Heol Clarence

Llandudno

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18 Hydref 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

7 Heol Clarence

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Lleoedd cofrestredig	4
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hoffi byw yn y gwasanaeth ac maent yn siarad yn gadarnhaol iawn am y staff. Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i fyw eu bywydau fel y mynnant, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol o'u dewis. Asesir anghenion gofal a chymorth y bobl cyn iddynt ddod i'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn addas ac yn briodol. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith i arwain y staff o ran sut i roi'r gofal a'r cymorth cywir i'r bobl. Mae'r staff yn ymfalchïo mewn rhoi'r gofal gorau posibl i bob person y maent yn ei gefnogi. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau da i'r bobl.

Mae gan bob person ei fflat ei hun sy'n cynnwys lolfa, cegin ac ystafell ymolchi. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae angen ailaddurno un rhan o'r cartref a gwneud gwaith atgyweirio yno. Mae hwn yn faes i'w wella.

Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel, a rhoddir hyfforddiant i hyrwyddo dealltwriaeth y staff o gyflyrau iechyd ac anghenion cymorth y bobl. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn eu rolau. Nid yw'r staff bob amser yn cael sesiynau goruchwyllo un i un gan y rheolwyr, ac mae hyn yn faes y mae angen ei wella yn y gwasanaeth. Mae trefniadau ar waith ar lefel y rheolwyr a'r darparwr i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddiogel.

Llesiant

Mae'r bobl yn hapus. Mae'r bobl yn fodlon ar y gwasanaeth ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n eu cefnogi. Darperir gofal mewn ffordd barchus, caredig a diffwdan. Dywed y bobl wrthym fod y staff yn *“Absolutely lovely”* ac *“Always listen to me, they want to help me to feel better.”* Mae'r teuluoedd yn cael eu cynnwys wrth lunio cynlluniau cymorth y bobl, lle y bo'n briodol, ac mae hyn yn helpu i sicrhau parhad o ran y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r staff yn gyfarwydd ag anghenion unigol pob person, ac yn deall yr anghenion hynny. Mae'r cymorth a ddarperir yn unigryw i bob person a chaiff ei addasu mewn ymateb i newidiadau yn anghenion beunyddiol y bobl. Caiff y bobl gymorth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae hyn yn helpu i hybu llesiant emosiynol y bobl a'u hymdeimlad o berthyn.

Caiff hawliau'r bobl eu hyrwyddo. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rheolaeth dros eu bywydau bob dydd. Caiff gwasanaethau eirioli eu hwyluso, a gwelsom bobl yn cael budd o hyn. Rhoddir dewisiadau i'r bobl o ran sut maent yn dymuno treulio eu diwrnod, sut maent yn dymuno byw eu bywydau, a pha sgiliau yr hoffent eu meithrin. Hyrwyddir annibyniaeth ac mae cynlluniau ysgrifenedig ar waith i ddatblygu gallu'r bobl i wneud pethau drostynt eu hunain yn barhaus. Mae'r lefelau staffio yn galluogi'r bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addysgol, hamdden a chymdeithasol gwahanol. Gall y bobl bersonoli eu fflat eu hunain drwy ei drefnu a'i addurno fel y mynnant. Byddai cysur y bobl yn eu cartref eu hunain yn cael ei wella pe bai pob ardal o'r cartref yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r bobl i sicrhau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r cymorth a ddarperir yn hybu llesiant corfforol ac emosiynol y bobl. Mae cyflyrau iechyd y bobl yn hysbys a chânt eu cofnodi, ac mae amrywiaeth o drefniadau ar waith i helpu'r bobl i gadw'n iach. Mae cynlluniau personol ar waith sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion iechyd meddwl y bobl, y cymorth sydd ei angen arnynt, a sut y dylai'r staff ddarparu cymorth iddynt. Caiff y bobl eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd a chânt gymorth i fynychu apwyntiadau meddygol. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i berthnasau am unrhyw newidiadau yn iechyd neu anghenion y bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaeth i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir a sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae mesurau ar waith ar bob lefel o'r gwasanaeth i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi gwybod am unrhyw faterion diogelu ac maent yn teimlo'n hyderus i wneud hynny. Mae'r rheolwyr yn dilyn y polisi diogelu ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn briodol am unrhyw faterion. Cymerir camau cadarn mewn ymateb i faterion diogelu a nodir, er mwyn gwella canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod eu hanghenion unigol yn hysbys a bod cynlluniau cyfredol ar waith o ran sut y caiff eu gofal ei ddarparu. Cyn i'r gwasanaeth ddechrau, caiff y cynllun personol cychwynnol ei lunio drwy gasglu cynlluniau cymorth ac asesiadau risg ynghyd gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sydd eisoes sy'n adnabyddus i'r person. Caiff cynlluniau personol y bobl eu datblygu ymhellach gan y darparwr drwy drafodaethau parhaus â'r bobl a'u perthnasau. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n barhaus a'u datblygu i adlewyrchu newidiadau yn anghenion gofal a chymorth y bobl.

Darperir gofal a chymorth yn unol â chynlluniau personol ac asesiadau risg cysylltiedig y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion unigol pob person, sut y caiff yr anghenion hynny eu diwallu a'r canlyniadau y mae'r bobl yn dymuno eu cyflawni. Caiff hoff bethau, cas bethau a dymuniadau'r bobl eu cofnodi. Mae hyn yn cefnogi parhad y gofal y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn gyfarwydd â'r ffordd y mae'n well gan bob person gael ei gefnogi. Mae asesiadau risg ar waith, sy'n rheoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y rhain eu diweddarau pan fo angen, sy'n sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig gywir ar gael i'r staff ynglŷn â sut i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Siaradodd y staff yn gynnes ac yn dosturiol am y bobl y maent yn eu cefnogi, gan rannu eu nod o ddarparu gwasanaeth o safon i bob person sy'n byw yn y gwasanaeth.

Caiff iechyd y bobl ei hybu mewn ffyrdd amrywiol. Mae cyflyrau iechyd yr unigolion yn hysbys, a chânt eu cofnodi. Mae'r staff yn eirioli dros y bobl er mwyn sicrhau eu bod yn gweld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen, a chânt eu cefnogi i ddilyn y cyngor a'r canllawiau a gafwyd. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaeth, fel y'i rhagnodwyd, er mwyn eu helpu i reoli eu cyflyrau iechyd. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar feddyginiaeth, a chaiff eu dealltwriaeth ei phrofi'n rheolaidd. Mae trefniadau ar waith ar lefel uwch i fonitro a goruchwyllo'r broses o reoli meddyginiaethau yn y gwasanaeth.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl ifanc rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol i leisio unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch a llesiant y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith sy'n rhoi canllawiau clir i'r staff ar sut i amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae'r polisi chwythu'r chwiban sydd ar waith yn cefnogi staff y gall fod angen iddynt godi pryderon mewn perthynas â diogelu. Rhoddir hyfforddiant ar ddiogelu a chyflwynir adroddiadau diogelu priodol i'r awdurdodau lleol, pan fo angen.

Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd cartrefol, sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl. Disgrifir yr adeilad a'r cyfleusterau yn y datganiad o ddiben. Mae gan bob person ei fflat annibynnol ei hun sy'n cynnwys ardal lolfa, cegin, ystafell ymolchi ac ystafell wely. Mae fflatiau'r bobl wedi'u haddurno'n unigol a'u personoli gydag eitemau sydd o bwys iddynt, fel lluniau, paentiadau a dodrefn meddal. Mae ardal awyr agored ddiogel ar gael. Ceir gardd â chyfleusterau eistedd. Dywed y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu fflat.

Mae'r safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Gwelsom fod y tu allan i'r cartref wedi cael ei baentio yn ddiweddar a dywedodd y rheolwr wrthym fod to newydd wedi'i osod yn ddiweddar hefyd. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn byw mewn cartref sydd mewn cyflwr da. Mae system ar waith i'r rheolwr dynnu sylw at unrhyw ardal o'r amgylchedd y mae angen rhoi sylw iddi, a rhoddir sylw i hyn gan dîm ystadau allanol. Mae tri o'r pedwar fflat mewn cyflwr da, ond mae angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw yn un fflat, am fod rhywfaint o ôl traul. Mae hyn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch eu nodi a'u rheoli'n briodol. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau, yn ôl yr angen. Mae trefniadau ar waith i hyrwyddo hylendid da a rheoli heintiau ar y safle. Caiff y bobl eu hannog i gadw eu hardaloedd byw yn lân ac yn daclus; mae'r staff yn rhoi cefnogaeth a chymorth yn hyn o beth pan fo angen. Mae teclyn sy'n cyfyngu ar faint y gall ffenestr agor wedi'i osod ar bob ffenestr, heblaw am un ffenestr Velux ar lawr uchaf y tŷ. Aeth y rheolwr i'r afael â hyn yn syth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau clir ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth a sicrhau y caiff ei redeg yn ddiraffferth, sy'n cyfrannu at allu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi pobl wrth wraidd y gwasanaeth. Mae systemau ar waith, ar lefel yr uwch-aelodau o'r staff a'r rheolwyr, i gadarnhau'n gyson fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr. Pan fo angen gwelliannau, cymerir camau yn gyflym i wneud y newidiadau sydd eu hangen.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod prosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth yn gyson. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth, fel sy'n ofynnol, ac yn ymgynghori â'r bobl ynglŷn â'u profiad o'r gofal a roddir. Mae adroddiadau ar gael i ddangos yr adborth a gafwyd a chanlyniad ymweliadau'r unigolyn cyfrifol. Gall y bobl a'u cynrychiolwyr hefyd rannu eu barn yn ystod adolygiadau strwythuredig o ansawdd y gofal, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Caiff yr adborth a roddir ei gofnodi a gweithredir arno'n briodol, sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth. Mae polisi cwynion ar waith yn ogystal â phroses ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion yn briodol.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n cael eu hyfforddi'n addas a'u cefnogi gan y rheolwyr. Caiff gwiriadau eu cwblhau fel rhan o'r broses recriwtio a chyn cyflogaeth er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae pob aelod newydd o'r staff yn cwblhau hyfforddiant sefydlu ac yn cysgodi sifftiau pan fydd yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Darperir hyfforddiant sy'n helpu'r staff i ddeall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, ochr yn ochr â hyfforddiant mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym: *"They notice my hard work, they appreciate what I do."* Nid yw'r staff bob amser yn cael sesiynau goruchwylio un i un, bob tri mis fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n cynnwys disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r broses o'i ddarparu. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth hefyd ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddiwylliant ac ethos y gwasanaeth a'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r ddogfen hon mewn fformat hawdd ei ddarllen, sy'n galluogi'r bobl i wneud penderfyniad hyddysg am ddefnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Ni chaiff pob ardal o'r cartref ei chynnal a'i chadw'n dda.	Newydd
36	Nid yw pob aelod o staff y gwasanaeth wedi cael sesiynau goruchwylio ffurfiol bob tri mis.	Newydd

Dyddiad Cyhoeddi 22/12/2022